*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch** |
| Pwnc | **Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Un o ofynion Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf yw bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau arwyddocaol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, rhaid adrodd i'r Aelodau ynghylch unrhyw newidiadau i fenthyciadau tymor hir a newidiadau i'r partïon i gontract sydd gan yr Awdurdod

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd Strategaethau Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf 2019/20 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar 18 Mawrth 2019. Er iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2019/20 ac ymlaen wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa alldro terfynol ar gyfer 2018/19.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi argymhelliad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 16 Medi 2019 a'u bod yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig sydd yn Atodiad A.

**CEFNDIR**

4 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar y strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, ac o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail ei ganfyddiadau.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 16 Medi 2019 pryd gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor hwnnw argymell i'r Awdurdod llawn eu bod yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig sydd yn Atodiad A.

**GWYBODAETH**

**Dangosyddion Darbodus 2019/20**

6 Mae Dangosyddion Darbodus 2019/20 wedi newid oherwydd bod y gwariant gwirioneddol ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2018/19 yn llai na'r alldro a amcangyfrifwyd, gyda rhai cynlluniau'n cael eu cario drosodd i 2019/20. Mae'r cynlluniau a gymeradwywyd ar gyfer 2019/20 wedi bod yn destun adolygiad yn seiliedig ar asesiad o flaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at ailbroffilio rhai cynlluniau, a thynnu cynlluniau eraill o'r rhaglen.

7 Dyma esboniad o'r hyn mae pob dangosydd yn ei gynrychioli:

- Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn mesur y ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod;
- Mae'r Ffin Weithredol yn mesur y ddyled allanol bosibl fwyaf i ganiatáu uchelfannau ac iselfannau yn y llifoedd arian;
- Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif y swm mwyaf y gallai'r Awdurdod ei fenthyca ar sail asesiad o'r gofynion gweithredol a'r risgiau allanol.

8 Mae'r tri dangosydd allweddol hyn wedi newid ar gyfer 2019/20 oherwydd y diwygiadau i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 a 2019/20.

9 Mae'r gostyngiad yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw hefyd wedi cael effaith ar y dangosyddion. Yn benodol, mae 'cymhareb y costau ariannu a'r llif refeniw net' wedi lleihau'r ffi ar refeniw am wariant cyfalaf oherwydd bod llai o gynlluniau yn y rhaglen gyfalaf.

10 Mae atodiad A yn rhestru'r dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth 2019 ynghyd â'r dangosyddion diwygiedig.

**Benthyciadau**

11 Cymerwyd un benthyciad gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus eleni, yn lle benthyciadau a oedd yn aeddfedu. Roedd un benthyciad am £2.5m am 3.5 mlynedd ar log o 1.6%, ac 16 Ebrill 2019 oedd y dyddiad cychwyn.

12 Mae gan yr Awdurdod £17m o fenthyciadau tymor byr a gymerwyd gydag Awdurdodau Lleol eraill. Dyma'r lefel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio.

13 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo 55% i fod yn derfyn uchaf i'r portffolio benthyciadau ar gyfer swm benthyciadau sy'n aeddfedu cyn pen 12 mis. Y sefyllfa bresennol yw bod 51% o'r benthyciadau nad ydynt gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn aeddfedu

cyn pen 12 mis. Ar hyn o bryd, mae benthyciadau tymor byr yn cael eu hadnewyddu pan fyddant yn aeddfedu, a hynny gydag Awdurdodau Lleol eraill yn dibynnu ar y cyfraddau llog sydd ar gael ar y pryd. Ar hyn o bryd, mae digon o hylifedd yn y farchnad i adnewyddu benthyciadau sy'n aeddfedu, neu i gael rhai yn eu lle, wrth i Awdurdodau Lleol edrych y tu allan i'r sector bancio i leoli arian dros ben yn y tymor byr. Rhwng 0.75% a 0.9% yw'r cyfraddau llog cyfredol ar fenthyciadau tymor byr.

**Partïon i Gontract, a Buddsoddiadau**

14 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2019/20, a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Mawrth, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf a ganlyn ar gyfer partïon i gontract.

(1) Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5 miliwn

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau) – terfyn £2 filiwn

(3) Mae gan holl fanciau'r DU ac Iwerddon, a'u his-gwmnïau, sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Dyma'r diffiniad ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Tymor Byr | F1 |
| Tymor Hir | A |
| Sgôr Hyfywedd | Bbb |

Terfyn - £5m

Os yw sgoriau banciau'n gostwng yn is na'r rhai sydd yn y tabl uchod, bydd y banciau hynny'n cael eu defnyddio os yw adneuon mawr yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, ac os yw'r adneuon yn gostwng o fewn telerau'r warant.

(4) Mae £2 filiwn o derfyn benthyca gan Gymdeithasau Adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio).

(5) Mae £2 filiwn o derfyn, a 9 mis o gyfryngiad amser ar y mwyaf, gan Gymdeithasau Adeiladu sydd heb sgôr ond sydd ag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy.

15 Y prif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf yr Awdurdod ar gyfer buddsoddi yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Ar hyn o bryd, mae unrhyw fuddsoddiadau'n cael eu dal am resymau llif arian, ac mae unrhyw arian parod dros ben yn cael ei ddefnyddio yn lle benthyciadau tymor hir y byddai eu hangen i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

16 Mae'r arian dros ben ar gyfer buddsoddiadau sydd gan yr Awdurdod ar 28 Awst 2019 yn uwch na'r hyn sydd fel arfer yn cael ei ddal gan yr Awdurdod oherwydd bod y Grant Atodol Blynyddol ar gyfer Pensiynau wedi dod i law. Mae'r arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn dau gyfrif galw, sef gyda Barclays a'r Bank of Scotland, ac mae hynny'n caniatáu mynediad at arian ar unwaith. Isod, rhoddir manylion y buddsoddiadau ar 28 Awst.

| Prifswm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 3,880,000 | 0.65 | Amherthnasol | Galw | Bank of Scotland |
| 1,040,000 | 0.50 | Amherthnasol | Galw | Barclays |

**Cyfraddau Llog**

17 Mae ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, sef Arlingclose, yn rhagweld y bydd y gyfradd sylfaenol yn aros ar 0.75% cyhyd ag y gellir gweld. Gan fod gan yr Awdurdod nifer o fenthyciadau tymor byr, disgwylir y bydd benthyciadau ar gael ar y cyfraddau cyfredol, ac mae digon yn y gyllideb ar gyfer hynny.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd doeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny'n unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithio** | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi fethu gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hwn. |

**Atodiad A**

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | 2019/20<br>£ | 2020/21<br>£ | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>3,119,000<br>2,052,649 | <br>3,664,000<br>3,664,000 | <br>1,989,000<br>1,989,000 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>35,206,000<br>33,198,808 | <br>36,221,000<br>34,518,435 | <br>35,360,000<br>33,962,007 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>37,206,000<br>35,198,808 | <br>38,221,000<br>36,518,435 | <br>37,360,000<br>35,962,007 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>35,206,000<br>33,198,808 | <br>36,221,000<br>34,518,435 | <br>35,360,000<br>33,962,007 |
| 5 | Cymhareb Costau Cyllido a Llif Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>8.97%<br>7.83% | <br>9.13%<br>8.13% | <br>9.68%<br>8.56% |